Dirwyon llys

Os ydych yn gorfod mynd i'r llys am achos troseddol a'ch bod yn euog, efallai bydd y llys yn eich gorchymyn i dalu dirwy. Mae rhai o'r achosion troseddol mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- dwyn
- ymosod
- gyrru tra'n feddw
- dim yswiriant car
- methu â thalu eich trwydded teledu.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn talu'r ddirwy oherwydd gallwch gael eich anfon i'r carchar am beidio â thalu. Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthych sut i osgoi mynd i ddyled gyda dirwyon llys, a'r hyn allwch ei wneud os ydych yn mynd i ddyled.

Mynnwch gyngor ar eich holl ddyledion

Efallai bod gennych ddyledion eraill yn ogystal â dirwyon heb eu talu. Os yw hyn yn wir yn eich achos chi, gofynnwch i ymgynghorydd arbenigol am gymorth. Bydd yr ymgynghorydd yn eich helpu i:

- ddelio â'ch dyledion i gyd
- drefnu pa ddyledion y dylid eu talu yn gyntaf
- geisio dod i gytundeb gyda'ch credydwyr.

Gwnewch yn siŵr fod y llys yn ymwybodol o'ch amgylchiadau ariannol

Pan ydych yn mynd i'r llys, gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'ch amgylchiadau ariannol cyn y cewch eich dedfrydu. Bydd hyn yn sicrhau na chewch ddirwy na allwch ei fforddio.

Rhowch wybodaeth i'r llys am eich enillion, unrhyw bobl sy'n dibynnu'n ariannol arnoch chi (er enghraifft eich partner neu blant), eich treuliau ac unrhyw gostau eraill. Weithiau gallwch bledio'n euog i achos troseddol heb fynd i'r llys. Os ydych yn gwneud hyn, sicrhewch eich bod yn anfon manylion o'ch amgylchiadau ariannol pan ydych yn anfon ffurflenni'r llys drwy'r post.

Dod i gytundeb gyda'r llys

Os na allwch dalu'r ddirwy yn syth, efallai y gallwch ddod i gytundeb gyda'r llys. Gallwch ofyn i'r llys i **dalu'r ddirwy fesul rhandaliad**. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r llys gytuno â hyn.

Os cewch ganiatâd i dalu fesul rhandaliad a'ch bod yn colli taliad, fe fydd yn rhaid i chi dalu'r ddirwy gyfan mewn un taliad. Gallech gael eich anfon i'r carchar os nad ydych yn talu.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os na allwch fforddio talu'r ddirwy yn syth ac nid ydych am ei thalu fesul rhandaliad, mae'n bosib y bydd y llys yn eich caniatáu i **dalu'r swm cyfan yn hwyrach**. Er enghraifft, efallai y byddwch am dalu ar ôl i chi dderbyn eich pae nesaf. Nid oes rhaid i'r llys gytuno â hyn.

Os oes rhaid i chi dalu'r ddirwy yn syth a'ch bod yn gwrthod, gallech gael eich anfon i'r carchar os yw'r llys yn credu eich bod yn **gwrthod talu'n fwriadol**.

Os ydych yn ei chael hi'n anodd talu'r ddirwy – dywedwch wrth y llys

Gallech fynd i drafferth pan ydych yn talu'r ddirwy fesul rhandaliad. Mae'n bosib na fyddwch yn gallu talu ar y dyddiad dyledus.

Ysgrifennwch at y llys gan esbonio pam na allwch dalu. Dylech gynnwys tystiolaeth o'ch amgylchiadau ariannol. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y cewch ganiatâd i:

- dalu fesul rhandaliad, neu
- dalu symiau llai o randaliadau dros amser hirach, neu
- dalu gweddill y ddirwy erbyn dyddiad penodol, neu
- dalu'r ddirwy ar ddyddiad hwyrach, neu
- ganslo'r ddyled (**ei dileu**).

Efallai y bydd y llys yn cytuno â'r hyn yr ydych wedi gofyn amdano, neu mae'n bosib y byddant yn gofyn i chi ddychwelyd i'r llys ac esbonio pam nad ydych wedi talu. Gelwir hyn yn **wrandawiad modd**.

Os nad ydych yn cysylltu â'r llys pan ydych yn mynd i drafferth, efallai y bydd rhaid i chi ddychwelyd i'r llys. Mewn rhai amgylchiadau, gallech gael eich **arestio** a chael eich cymryd yn ôl i'r llys.

Os ydych yn dychwelyd i'r llys, bydd y llys yn edrych ar eich amgylchiadau ariannol a phenderfynu ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf. Os ydych yn y sefyllfa hon, dylai **cyfreithiwr** fynd gyda chi i'r llys er mwyn cyflwyno eich achos. Gallwch wneud cais i'r llys am gymorth i dalu am gyfreithiwr. Gelwir hyn yn **gymorth cyfreithiol**.

Rhowch yr holl fanylion a thystiolaeth o'ch amgylchiadau ariannol i'r llys. Dylech geisio dod i gytundeb ynglŷn â sut i dalu eich dyled, neu weld os yw'r llys yn cytuno i'w dileu.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os na allwch ddod i gytundeb gyda'r llys, gallant eich gorfodi i dalu mewn sawl gwahanol ffordd megis:

- trefnu bod arian yn cael ei gymryd o'ch enillion. Gelwir hyn yn **orchymyn atafael enillion**
- trefnu bod arian yn cael ei gymryd yn syth o'ch budd-daliadau, er enghraifft, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth neu Lwfans Ceisio Gwaith
- trefnu bod **beilïaid** yn mynd i'ch cartref a chymryd eich eiddo. Bydd eich eiddo yn cael eu gwerthu i dalu eich dirwy.

Gallai'r llys eich gorchymyn i weithio heb dâl, ufuddhau i gyrffyw neu fynd i ganolfan mynychu.

Os yw'r llys wedi gwneud popeth i'ch gorfodi i dalu ac rydych chi dal heb wneud, gallwch gael eich anfon i'r carchar. Dylai hyn ddigwydd dim ond os oes gennych arian ac rydych yn dewis peidio â thalu.

Os ydych yn credu na wnaeth y llys edrych ar eich amgylchiadau ariannol yn ddigon manwl cyn eich anfon i'r carchar, mynnwch gyngor cyfreithiol.

Os oes rhaid i chi fynd i'r carchar am beidio â thalu'r ddirwy, fe fydd yn cael ei ddileu pan gewch eich rhyddhau.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Beilïaid
- Defnyddio cyfreithiwr
- Cymorth gyda chostau cyfreithiol

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 27 Hydref 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr